CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd am 7.30pm yn Neuadd Bentref Llanon ar nos Fawrth, 7fed Mai 2024

Yn bresennol: Cadeirydd: y Cynghorydd Andrew Phillips
Y Cynghorwyr Keith Henson, Claire Humphreys, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Martine Robson and Jim Rollinson.
Clerc: Mr Denfer Morgan

320 Ethol Cadeirydd
Cynigiwyd ac eiliwyd yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol ailethol y Cynghorydd Andrew Phillips yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Bwrdeistrefol 2024-25.

321 Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd
Arwyddodd y Cynghorydd Phillips y Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd.

322 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorydd Lodwick Lloyd am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

323 Ethol Is-gadeirydd
Cynigiwyd ac eiliwyd yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol ailethol y Cynghorydd Hywel Llyr Jenkins yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Bwrdeistrefol 2024-25.

324 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd
Arwyddodd y Cynghorydd Jenkins y Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd.

325 Penodi Archwilydd Mewnol

Minutes of the Annual Meeting of the Council held at the Llanon Village Hall at 7.30pm on Tuesday, 7th May 2024

Present: Chairman: Councillor Andrew Phillips
Councillors Keith Henson, Claire Humphreys, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Martine Robson and Jim Rollinson.
Clerk: Mr Denfer Morgan

320 Election of Chairman
It was proposed and duly seconded and unanimously **RESOLVED** that Councillor Andrew Phillips be re-elected Chairman of the Council for the 2024-2025 Municipal Year.

321 Declaration of Acceptance of Office of Chairman
Councillor Phillips signed the Declaration of Acceptance of Office of Chairman.

322 Apologies
Councillor Lodwick Lloyd apologised for his inability to attend the meeting.

323 Election of Vice-Chairman
It was proposed and duly seconded and unanimously **RESOLVED** that Councillor Hywel Llyr Jenkins be re-elected Vice-Chairman of the Council for the 2024-2025 Municipal Year.
.

324 Declaration of Acceptance of Office of Vice-Chairman
Councillor Jenkins signed the Declaration of Acceptance of Office of Vice-Chairman.

325 Appointment of Internal Auditor

PENDERFYNWYD penodi Mr Elfyn Jones yn Archwilydd Mewnol ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2023-24.

It was **RESOLVED** to appoint Mr Elfyn Jones as Internal Auditor for the 2023-24 Annual Accounts.

326 Penodi Arolygwyr Llwybrau

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Claire Humphreys, Dennis Morgan a Jim Rollinson yn arolygwyr llwybrau.

326 Nomination of Footpath Inspectors

It was **RESOLVED** that Councillors Claire Humphreys, Dennis Morgan and Jim Rollinson be appointed the footpath inspectors.

327 Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol

PENDERFYNWYD penodi'r cynrychiolwyr canlynol:

Pwyllgor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon (1) – y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins

Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru (1) – y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins

Pwyllgor Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch (1) – Mr Phil Tomlins

Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Llannon (1) – y Cynghorydd Gwenno Piette.

327 Representation on Outside Bodies

It was **RESOLVED** to appoint the following representatives:

Llanon Village Hall and Playing Fields Committee (1) – Councillor Hywel Llŷr Jenkins

Ceredigion Area Committee One Voice Wales (1) – Councillor Hywel Llŷr Jenkins

Aberaeron & District Swimming Pool and Recreation Committee (1) – Mr Phil Tomlins

Governing Body of Llannon Community Primary School (1) – Councilllor Gwenno Piette.

328 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2024-25

Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2024 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun canlynol ar gyfer 2024-25:

Lwfansau a gynhwysir yn y Cynllun
Costau Gofal
Taliad Costau Ychwanegol / Taliad Penodol am Nwyddau Traul
Costau Teithio a Chynhaliaeth
Arhosiad Dros Nos

Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun
Uwch Rôl
Maer neu Gadeirydd
Dirprwy Faer neu Is-gadeirydd
Colled Ariannol
Lwfans presenoldeb

328 Members Payments Scheme for 2024-25

Consideration was given to the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales dated February 2024 and it was **RESOLVED** to adopt the following Scheme for 2024-25:

Allowances Included in the Scheme
Care costs
Extra Costs Payment / Set Payment for Consumables
Travel and Subsistence
Overnight Stay

Allowances Not Included in the Scheme
Senior Role
Mayor or Chair
Deputy Mayor or Vice Chair
Financial Loss
Attendance Allowance

Daeth y cyfarfod i ben am 7:45 y.h.

The meeting concluded at 7:45 p.m.

CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Llansantffraed a gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos Fawrth, 7fed Mai 2024 yn Neuadd Bentref Llanon

Yn bresennol: Y Cynghorydd Andrew Phillips (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Keith Henson, Claire Humphries, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Gwenno Piette ac Aled Roberts.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

329 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lodwick Lloyd YH, Martine Robson a Jim Rollinson am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

330 Heddlu Dyfed-Powys
Croesawodd y Cadeirydd PCSO Charlotte Carter i'r Cyfarfod ac adroddwyd y gwybodaeth canlynol.
Bu deg gwrthdrawiad traffig ar ffordd yr A487 rhwng Aberarth a Llanon yn ystod y deufis blaenorol ac roedd yna frafodaethau mewn llaw gyda'r Awdurdod Cefnffyrdd ynghylch gwelliannau posib yn ardal y troeon dwbl.
Bu digwyddiadau diweddar o hel cwningod yn hwyr y nos yn defnyddio golau cryf a oedd o bosib yn cynnwys tresmasu.
Bu digwyddiadau o dorri mewn i dai gwag yn Llanon.
Dywedodd PCSO Carter y byddai angen tystiolaeth o goryrru yn Llanon er mwyn creu achos i gael ymarferiad GoSafe.

331 Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Ebrill 2024
PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2il Ebrill 2024 fel rhai cywir.

332 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Minutes of a Meeting of Llansantffraed Community Council held at 7:30 pm on Tuesday, 7th May 2024 at the Llanon Village Hall

Present: Councillor Andrew Phillips (Chairman) Councillors Keith Henson, Claire Humphries, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Gwenno Piette and Aled Roberts.
Mr Denfer Morgan (Clerk)

329 Apologies
Councillors Lodwick Lloyd JP, Martine Robson and Jim Rollinson apologised for their inability to attend the meeting.

330 Dyfed-Powys Police
The Chairman welcomed PCSO Charlotte Carter to the meeting and the following information was reported.
There had been ten road traffic collisions on the A487 between Aberarth and Llanon during the previous two months and there were on-going discussions with the Trunk Road Authority in respect of possible improvements in the vicinity of the double bend.
There had been recent instances of rabbitting late at night using strong lights and which probably involved trespassing.
There had been break-ins to empty houses in Llanon.
PCSO Carter stated that evidence of incidents of speeding in Llanon would be needed in order to build a case for a GoSafe exercise.

331 Minutes of the Meeting held on 2nd April 2024
It was **RESOLVED** to confirm the Minutes of the Meeting of the Council held on 2nd April 2024 as being correct.

332 Matters Arising from the Minutes

Cofnod 308 – Bwthyn Amgueddfa Llanon, Gofynwyd i'r Clerc drafod y mater ymhellach gyda Churadur yr Amgueddfa, gan gynnwys y posibilrwydd o drefnu arolwg strwythurol.
Cofnod 314. Arolwg Cymunedol Ceredigion. Dywedodd y Clerc fod sylwadau'r Cyngor wedi'u hanfon i'r Comisiwn.

Minute 308. Ceredigion Cottage Museum. The Clerk was requested to discuss the matter further with the Museum Curator, including the possibility of arranging a structural survey.
Minute 314. Ceredigion Community Review. The Clerk advised that the Council's response had been sent to the Commission.

333 Arolwg Misol
Cytunwyd:
- cael gafael ar bris gan gontractwr ar gyfer clirio traeth y Morfa
- gwaredu bwrdd picnig a oedd wedi torri o Llain y Cyngor.

333 Monthly Inspection
It was agreed to:
- obtain a price for clearing the Morfa beach from a contractor
- remove a damaged picnic table from the Council's slang.

334 Materion Cyllidol
PENDERFYNWYD talu'r isod:
Pwyllgor Neuadd Bentref a Cae Chwarae Llanon:
Cyfarfod Ebrill - £30
Cae Chwarae: dau doriad Ebrill (50%) - £230.

334 Finance Matters
It was **RESOLVED** to pay the following:
Llanon Village Hall and Playing Field Committee:
April Meeting - £30
Playing Field: two cuts April (50%) - £230

335 Diweddariad ar yr Estyniad i'r Lle Chwarae
Nodwyd fod cyfarfod wedi digwydd rhwng cynrychiolwyr y Cyngor a Proludic ar y safle a threfnwyd i'r gwaith ddechrau yn gynnar ym mis Mehefin.

335 Playground Extension Update
It was noted that a site meeting had been held between representatives of the Council and Proludic and that the work was scheduled to start in early June.

336 Materion Cyllideb Cyngor Sir Ceredigion
Adroddodd y Clerc fel a ganlyn:

a) Toiledau'r Waun. Nid oedd dim byd ychwanegol i adrodd.

b) **Cynnal a chadw tir**. Ni dderbyniwyd y trwyddedau oddi wrth y Cyngor Sir. Roedd pris ar gyfer datblygu'r banc o flaen yr Ysgol Gynradd yn cael ei baratoi gan gontractwr.

336 Ceredigion County Council Budget matters:
The Clerk reported as follows:
a) **Waun toilets**. Nothing further to report.

b) Ground maintenance. The licences had not been received from the County Council. A price was being prepared by a contractor for developing the bank in front of the Primary School for car parking.

337 Y Ciosg
Roedd y gwaith o osod y silffoedd a pharatoi ar gyfer y peintio yn mynd yn ei flaen.

337 The Kiosk
The work was progessing with the installation of the shelving being and preparation for the painting.

338 Cyfraniad at dorri porfa'r cae chwarae 2024

Cadarnhawyd mewn cyfarfod diweddar gyda Phwyllgor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon fod y Cyngor wedi cytuno cwrdd â 50% y gost o dorri'r darn amgylchynnol, gyda'r Clwb Peldroed yn torri'r cae chwarae.

339 Adroddiad y Cynghorydd Sir Keith Henson

Fe adroddodd y Cynghorydd Henson ar y canlynol:

a) Roedd trafodaethau mewn llaw i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
b) Byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwasanaeth cludiant cymunedol yn lle Dolen Teifi yn ne'r Sir
c) Roedd trefniadau mewn llaw i fan y Gwasanaeth Ieuenctid ymweld â'r Waun et oar 28ain Mai
d) Roedd trafodaethau yn parhau gydag Adran Cynllunio'r Cyngor Sir a CNC ynghylch gosod caergewyll ar hyd y darn o'r Afon Cledan sy'n ffinio gyda Stad Graig Ddu.

340 Unrhyw Fater Arall

Roedd yr arwydd Cross Inn ger Tŷ Gwyn wedi diflannu.

Gofynwyd am bris gan gontractwr ar gyfer gosod arwyneb newydd ar y lôn sy'n arwain at y cae chwarae yn Llansantffraed.

.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:10pm

338 Playing field grass cutting contribution 2024

At a recent meeting held with Llanon Village Hall and Playing Field Committee it had been confirmed that the Council had agreed to meet 50% of the cost of cutting the perimeter area, with the Football Club cutting the playing field.

339 Report of County Councillor Keith Henson

Councillor Henson reported on the following:

a) Discussions were underway to prepare a three-year Regional Transport Plan
b) Welsh Government would be financing a community bus service in place of Dolen Teifi in the south of the County
c) Arrangements were in hand for the Youth Service van to visit the Waun again on 28th May
d) Discussions were continuing with the County Council Planning department and NRW concerning the inclusion of gabions along the length of Afon Cledan bordering Stad Craig Ddu.

340 Any Other Matter

The Cross In direction sign at Tŷ Gwyn had disappeared.

A price had been requested from a contractor for surfacing the lane leading to the playing field at Llansantffraed.

Highways enforcement

.

The meeting concluded at 9:10pm